Busnes Creadigol Cymru (rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru) yn cefnogi ac yn annog Busnesau Creadigol Cymru yn y sectorau Teledu, Ffilm, Cerddoriaeth a Chyfryngau Rhyngweithiol a all wneud cyfraniad sylweddol i'r economi, yn enwedig drwy greu, cadw a defnyddio Eiddo Deallusol.
Busnes Creadigol Cymru (rhan o Lywodraeth Cynulliad

Busnes Creadigol Cymru, e-fwletin
Gaeaf '09

* * * *

Lisa@welshmusicfoundation.com am fanylion cyn
gynted â phosibl.

International Emmy® Awards 2010

Mae'r Academi Ryngwladol o Gelfyddydau a Gwyddorau Teledu bellach yn derbyn cynigion ar gyfer Gwobrau Rhyngwladol Emmy® 2010.

DYDDIAD CAU AR GYFER CYNIGION: Dydd Gwener, 5ed Chwefror 2010

Gellir dod o hyd i fanylion Rheolau a Rheoliadau a ffurflenni cais yn:
http://www.iemmys.tv/awards_entry.aspx

Rhaid i gyflwyniadau cymwys fod wedi'u creu a'u dosbarthu'n gyntaf y tu allan i'r Unol Daleithiau rhwng Ionawr 1, 2009 a Rhagfyr 31, 2009. Y **dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Chwefror 5, 2010**.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch ag Adran Gwobrau'r Academi Ryngwladol o Gelfyddydau a Gwyddorau Teledu ar awardsdept@iemmys.tv
neu +1-212-489-1946.

Cenhadaeth Fasnach Ryngwladol: Busnes Rhyngwladol Cymru

Cenhadaeth Fasnach i Dde Korea (Aml-sector - Seoul)

Chwefror 2010

I gael manylion am sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen: IBW Trade Missions

Cenhadaeth Fasnach i Tsieina (Aml-sector - Chongquig)

1af - 5ed Mawrth 2010

I gael manylion am sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen: IBW Trade Missions

Cenhadaeth Fasnach i Dwrci (Aml-sector - Istanbwl)
21ain - 26ain Mawrth 2010

I gael manylion am sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen: IBW Trade Missions

Newyddion y Diwydiant

Touchpaper yn agor yng Nghymru www.broadcastnow.co.uk/news/indies/touchpaper-opens-in-wales
UKFC yn cyhoeddi aildrefnu mawr, Cronfa Gynhyrchu newydd
www.screendaily.com/news/production
Cronfa IP Creadigol Cymru yn cynhyrchu refeniw gwerth £1.7m
www.walesonline.co.uk/busines wales creative ip fund generates £1.7m revenue
MIDEM 2010: Newyddion pwysig am gyllid www.welshmusicfoundation.com
midem_2010_important_funding_news/
Gwefan hyfforddiant newyddiaduraeth y BBC yn mynd yn gyhoeddus
www.how-do.co.uk/north-west-media-news/BBC journalism training website
Buddsoddwyd £1.9m gan Asiantaeth Ffilm Cymru yn y Diwydiant Ffilm Llynedd
www.screendaily.com/film-agency-for-wales-invested-19m-in-local-film-industry
Ffilm newydd Russell Crowe wedi'i disgrifio fel y ffilm Robin Hood "eithaf" newydd
russell-crowes-new-film-touted-as-the-ultimate-robin-hood-film
Sylwadau Gweinidog y DU dros Ewrop ar y Rhaglen MEDIA
www.cinemabusiness.co.uk/news
Ofcom: Gallai ITV golli £64m y flwyddyn ar newyddion rhanbarthol
www.broadcastnow.co.uk/news/broadcasters/ofcom-itv
Thomson yn nodi adolygiad a fydd yn lleihau maint y BBC
www.broadcastnow.co.uk/news/broadcasters/thompson-signals-review
Digalondid y diwydiant yn diflannu yn Mipcom
www.broadcastnow.co.uk/news/international/industrys-gloom-lifts
Comisiynwyr C4 yn amlinellu'r rhaglenni delfrydol ar gyfer llenwi bwlch Big Brother

www.broadcastnow.co.uk/news/commissioning/c4-commissioners
Y BBC yn chwilio am sioeau comedi ar y we i symud i deledu
www.broadcastnow.co.uk/news/multi-platform/bbc-seeks-web-comedy-shows
Y DU yw'r allforiwr fformat gorau
www.broadcastnow.co.uk/news/international/uk-is-top-format-exporter
Y BBC yn cynllunio rhifyn o Casualty ar y we
www.broadcastnow.co.uk/ratings/multichannel/bbc-plans-casualty-webisode
Rhaglenni Peilot newyddion ITV wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill
www.broadcastnow.co.uk/news/itv-news-pilots-set-for-april-2010
BBC Worldwide i gyfyngu ar fuddsoddiad Indi
www.broadcastnow.co.uk/news/indies/bbcw-to-rein-in-indie-investment
Asesiad cynnar o wiriadau iechyd Cyswllt Busnes
www.berr.gov.uk/files/file
Undeb y Cerddorion: archwilio ffyrdd o ymgysylltu ag aelodau
www.berr.gov.uk/files

Wales Screen Commission
Comisiwn Sgrîn Cymru

Ffilmio yn Dragon Studios

Mae Comisiwn Sgrîn Cymru (rhan o Busnes Creadigol Cymru) wedi cymryd rhan bwysig yn y broses o greu'r ffilm nodwedd *Ironclad* o'r camau cynnar o chwilio am leoliadau i'r ffilm, darparu manylion criw lleol, cyfleusterau a llety, cysylltu ag adrannau'r llywodraeth a chyrff cyllid a hyd yn oed awgrymu lleoliadau ar gyfer y parti olaf.

Gweithiodd Comisiwn Sgrîn Cymru a Busnes Creadigol Cymru, ynghyd â'u cydweithwyr yn adrannau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn galed i sicrhau bod y ffilm yn dod i Gymru, gan wireddu nid yn unig yr effaith potensial y byddai'r ffilm yn ei chael ar yr economi leol ond yr effaith gynyddol ar dwristiaeth, pe byddai'r ffilm yn dod mor boblogaidd â chlasuron fel *Braveheart* neu *Gladiator*.

Cyn penodi rheolwr lleoliad ar gyfer y prosiect, aeth staff y Comisiwn ati i chwilio am leoliadau ac i ymweld â safleoedd gyda chynhyrchwyr y ffilm, sef Andrew Curtis a Rick Benattar, a'r cyfarwyddwr Jonathan English, gan ddangos yr amrywiaeth syfrdanol o leoliadau sydd gan Gymru i'w cynnig.

Yn wreiddiol bwriadwyd saethu'r ffilm yn yr Almaen a Hwngari ond oherwydd cwymp y sterling aeth y cynhyrchwyr ati i chwilio mewn mannau eraill. Roedd Cymru yn cystadlu â gwledydd Ewropeaidd niferus i ddarparu canolfan i'r prosiect gyda chyllideb gwerth $24.4 miliwn. Dywedodd y Cynhyrchydd Benattar, *"Wnes i erioed freuddwydio am ei wneud yng Nghymru ond daethom yma, chwilio am leoliadau, a chael amser gwych...Rwyf hefyd wedi synnu at y talentau sydd ar gael yng Nghymru - llafurwyr, criw ac actorion medrus...Maent yn fodlon gweithio doed a ddelo, tra bod pawb yn yr Unol Daleithiau yn gorffen gwaith cyn gynted ag y bydd yn dechrau bwrw glaw."*

Cyflun o Gastell Rochester ag adeiladwyd ar safle Stiwdios Dragon ar gyfer y ffilm Ironclad.

Mae'r ffilm ganoloesol gyffrous hon sy'n llawn digwyddiadau wedi'i gosod yn 1215, ac mae'n ymwneud â gwarchae Castell Rochester. Mae'n cynnwys cast enwog, gan gynnwys Paul Giamatti a enwebwyd am Oscar, James Purefoy, Brian Cox, Mackenzie Crook, Jason Flemyng, Derek Jacobi a Kate Mara.

Cyflogwyd criw a chyfleusterau lleol ar gyfer y prosiect ym mhob adran gan gynnwys y tîm cynhyrchu, cyfarwyddwyr cynorthwyol, rhedwyr, cynorthwywyr gwisgoedd, criw effeithiau arbennig, heb anghofio'r rigwyr, y peintwyr a'r seiri coed niferus a weithiodd ar y replica o Gastell Rochester a adeiladwyd yn arbennig ar gyfer y ffilm.

Dywedodd llefarydd ar ran Comisiwn Sgrîn Cymru: *"Dyma'r tro cyntaf, yn sicr ers sefydlu'r Comisiwn i ffilm ar y raddfa hon gael ei lleoli'n gyfan gwbl yma yng Nghymru. Rydym wedi arfer gyda chynyrchiadau proffil uchel yn dod draw ac yn defnyddio'r lleoliadau gwych y mae Cymru yn enwog amdanynt, ond dim ond am wythnos neu ddwy ar y mwyaf, yna maent yn mynd yn ôl i Lundain ar gyfer y gofod stiwdio sydd ei angen arnynt ar gyfer eu setiau. Mae'r cyfle wedi codi o'r diwedd i gynyrchiadau eraill ar raddfa fawr gael eu lleoli yma yn Ne Cymru."*

Dyddiadau Cau ar gyfer Cyllid y Cyfryngau

Cymorth y Cynhyrchydd

i2i Audiovisual
Dyddiad cau **5 Chwefror 2010**

Darlledu ar y teledu
Dyddiad cau **5 Mawrth 2010**

Rhwydweithio

Cyfarfod Ffilm Bergamo
Dyddiad cau yr Eidal **15 Ionawr 2010**

Festival du Court Mertage de Bruxelles
Dyddiad cau Gwlad Belg **15 Ionawr 2010**

Indie Lisboa
Dyddiad cau Portiwgal **22 Ionawr 2010**

Gŵyl Ffilmiau Ryngwladol Stockholm
Dyddiad cau Sweden **23 Ionawr 2010**

Hyfforddiant

Diploma Ol-raddedig ETMA mewn Rheoli'r cyfryngau
Dyddiad cau Ffrainc **15 Ionawr 2010**

MEDIA Desk UK yn cyhoeddi canllaw i wneuthurwyr ffilmiau dogfen.

Mae'n bleser gan MEDIA Desk UK rhyddhau eu cyhoeddiad diweddaraf: *MEDIA 2007 for documentary filmmakers*, sy'n cynnig canllaw cynhwysfawr ar y sawl ffordd y gall y Rhaglen MEDIA gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes gwneud ffilmiau dogfen, o ddarparu cyllid datblygu a chynning cyllid cynhyrchu i gymorthdalu costau benthyca'r banc. Mae'r canllaw hwn hefyd yn cynnwys rhestrau manwl o gyrsiau hyfforddiant, fforymau cyflwyniadau, marchnadoedd a gwyliau a gynhelir ledled Ewrop a ariennir gan MEDIA, sydd i gyd wedi'u teilwra'n benodol i anghenion gwneuthurwyr ffilmiau dogfen.

Mae copi PDF o *MEDIA 2007 for documentary filmmakers* ar gael i'w lawrlwytho, neu i'r rhai hynny ohonoch sydd am gael copi caled sgleiniog, anfonwch neges e-bost i wales@mediadeskuk.eu gyda'ch enw a'ch cyfeiriad, ac ysgrifennwch 'Documentary brochure request' yn y llinell testun.

Caerdydd yn cynnal Gweithdy W3 Entrepreneuriaid Clyweledol Ewropeaidd.

Caerdydd oedd yn cynnal wythnos derfynol gweithdy mawreddog cynhyrchwyr EAVE 2009, rhwng 16eg a 23ain Tachwedd 09, gan groesawu 51 o gynhyrchwyr Ewropeaidd o 27 o wledydd Ewrop. Gweithiodd Asiantaeth Ffilm Cymru a Mark John o Vision Thing Communications mewn partneriaeth â swyddogion EAVE er mwyn cydlynu'r digwyddiad a oedd yn para wythnos.

Drwy gydol y digwyddiad proffil uchel, roedd ffocws penodol ar ddiwydiant clyweledol Cymru. Cafodd cyfranogwyr y cyfle i gyfarfod â'r gorau o dalent gwneud ffilmiau Cymru ac archwilio cyfleoedd i gyd-gynhyrchu a gwneud ffilmiau'n rhyngwladol yng Nghymru. Cafodd gweithwyr proffesiynol lleol wahoddiad i gymryd rhan mewn elfen Mini-EAVE arbennig o'r Gweithdy gyda digwyddiadau wedi'u teilwra i'w gofynion a chyfleoedd i gymryd rhan yn y brif raglen EAVE.

Gyda chefnogaeth Asiantaeth Ffilm Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Busnes Creadigol Cymru, MEDIA Antenna, Skillset Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd a Chynghrair Cynhyrchwyr Cymru, dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad proffil uchel, ar raddfa fawr ac mor uchelgeisiol ddod i Gymru.

Cymerodd Pauline Burt, Prif Weithredwr Asiantaeth Ffilm Cymru ac Allison Dowzell o Busnes Creadigol Cymru ran mewn trafodaeth panel ar 'Gynhyrchu yng Nghymru', ynghyd â'r cyfarwyddwr o Gymru, Marc Evans, aelodau eraill o Asiantaeth Ffilm Cymru a Chronfa IP Creadigol Cymru, lle rhoddwyd trosolwg o'r cymorth a ddarperir i'r broses gynhyrchu yng Nghymru. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC, yn hen Siambrau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd MEDIA Antenna Cymru yn falch o gymryd rhan yn rhaglen EAVA, gan roi cipolwg i gynhyrchwyr Cymru ar y broses gyd-gynhyrchu Ewropeaidd a chyfle i gyfarfod â rhai o aelodau allweddol y diwydiant clyweledol Ewropeaidd. Cynhaliwyd sesiynau penodol wedi'u hanelu at gyd-gynyrchiadau Ewropeaidd. Arweiniodd Pennaeth MEDIA Cymru, Judy Wasdell, sesiwn lawn, gan drafod 'Sut i Gael Gafael ar Arian Ewropeaidd'; a oedd yn cynnwys astudiaeth achos o Mark John, graddedig o EAVE ac un sydd weid bod yn llwyddiannus yng Nghymru ac sydd wedi cael arian Prosiect Sengl MEDIA yn ddiweddar.

Cafodd y ffilm nodwedd 'A Boy Called Dad' a gyd-gynhyrchwyd gan Mark John ei Sgrinio ddydd Iau 19eg Tachwedd yn ystod Gŵyl Ffilm a Cherddoriaeth Ryngwladol Soundrtrack, Mewn digwyddiad arbennig a noddwyd gan MEDIA I bob cyfranogwr EAVA

Mae EAVE yn un o asiantaethau hyfforddiant yn y cyfryngau a datblygu prosiectau mwyaf blaenllaw Ewrop, gydag amrywiaeth o raglenni a arweinir gan ddiwydiant i gynhyrchwyr clyweledol Ewropeaidd a rhyngwladol.

Cefnogir EAVE gan amrywiaeth o bartneriaid cyllido rhyngwladol, yn cynnwys y rhaglen MEDIA, ac mae EAVE wedi bod yn rhedeg am dros 20 mlynedd - a gall enwi rhai o wneuthurwyr ffilmiau mwyaf blaenllaw y byd ymhlith ei gyn-fyfyrwyr - fel cynhyrchwyr enillydd Cannes Palme d'Or 'The Wind that Shakes the Barley', 'The Last King of Scotland' a enillodd Oscar a 'The Counterfeiters'.

I gael rhagor o wybodaeth am EAVE (Entrepreneuriaid Clyweledol Ewropeaidd) a'i weithdai a'i fentrau hyfforddi, ewch i: www.eave.org

Cronfa IP Creadigol Cymru yn cynhyrchu refeniw gwerth £1.7m

Mae cronfa Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cefnogi prosiectau ffilm a theledu wedi cynhyrchu dros £1m mewn refeniw o werthiannau masnachol dilynol. Mae Cronfa IP (eiddo deallusol) Creadigol Cymru wedi buddsoddi £8.7m mewn prosiectau ffilm, teledu ac animeiddio. Mae 80% o'r buddsoddiad hwn wedi'i ddosbarthu fel "gweithredol" gan Gyllid Cymru yn yr ystyr ei fod yn fuddsoddiad sydd wedi dechrau cynhyrchu elw o tua £1.7m (neu 22% o'r portffolio gweithredol), ffigur y gellir ei gymharu â chronfeydd buddsoddi rhanbarthol/cenedlaethol tebyg o fewn y sector diwydiannau creadigol.

Yn ôl llefarydd o is-gwmni banc buddsoddi Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae dal yn gymharol gynnar i farnu beth fydd cyfanswm yr elw yn y dyfodol ar fuddsoddiad y Gronfa IP Creadigol oherwydd gall prosiectau a gyflawnir o fewn y sector Creadigol, yn enwedig mewn animeiddio, gael cylch bywyd o rhwng pump a 10 mlynedd ar gynhyrchu refeniw ac felly dylid eu hystyried yn yr hirdymor.

Dywedodd Cyllid Cymru fod gwariant sy'n gysylltiedig â phrosiectau sydd o fudd i economi Cymru bellach dros £21m, sydd 2.4 gwaith yn fwy na'r buddsoddiad. Ymhlith y gweithgareddau sy'n cyfrannu at y gwariant hwn mae: taliadau a wnaed i bob aelod o staff cynhyrchu y mae eu prif breswylfa yng Nghymru: ffioedd lleoliad a llogi stiwdio: costau adeiladu a chludo; gwariant ar lety yng Nghymru a phob gwariant a wnaed i gwmnïau yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau cynhyrchu.

Ymhlith y prosiectau a gefnogwyd gan y gronfa hyd heddiw mae ffilm 2006 sef 'Big Nothing', y cafodd rhannau ohoni eu ffilmio yn Ne Cymru, ac sy'n cynnwys seren y rhaglen Friends, David Schwimmer, ac yn gynharach eleni, Mr Nice sy'n cynnwys Rhys Ifans - ffilm sy'n seiliedig ar fywyd Howard Marks, y deliwr cyffuriau gwarthus Ymhlith y prosiectau ffilm eraill a gefnogwyd gan y gronfa mae Patagonia sy'n cynnwys Matthew Rhys. Cafodd Hanna's Helpline, animeiddiad cyn-ysgol hefyd fudd o'r gronfa.
Mwy: Wales Creative IP Fund generates £1.7m revenue.

Ynglŷn â Chronfa IP Creadigol Cymru....

Wedi'i rheoli gan Gyllid Cymru ccc ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae Cronfa IP Creadigol Cymru yn darparu buddsoddiad ecwiti ar gyfer ffilmiau nodwedd, cynyrchiadau ar gyfer y teledu, cyfryngau newydd a phrosiectau cerddoriaeth. Rhaid gwario cyfran o gyfanswm y gyllideb gynhyrchu yng Nghymru fel rhan o'r buddsoddiad cyffredinol.

Mae'r arian yn gweithio ar ddwy lefel. Yn gyntaf, yn gyfnewid am gefnogaeth ariannol, rhaid ffilmio neu gynhyrchu ffilm yn rhannol yng Nghymru. A chyda bodd IP, mae gan y gronfa hawliau i gyfran o unrhyw refeniw masnachol dilynol a gynhyrchir drwy sianelau dosbarthu, fel gwerthiannau DVD neu dderbynebau'r swyddfa docynnau.
Un o amcanion allweddol y Gronfa yw buddsoddi yn niwydiannau creadigol Cymru a denu cynyrchiadau i Gymru. Hyd yma mae'r Gronfa wedi buddsoddi mewn nifer o ffilmiau nodwedd, cyfresi animeiddio a gemau fideo ac mae'n parhau i chwilio am gyfleoedd teledu masnachol pellach er mwyn datblygu portffolio mor eang â phosibl.

ASIANTAETH FFILM CYMRU FILM AGENCY FOR WALES

Buddsoddiad gwerth £1.15 miliwn yn cyfuno diwylliant a masnach yng Nghymru.

Cyhoeddodd Asiantaeth Ffilm Cymru ffigurau sy'n rhoi manylion buddsoddiad gwerth £1.15 miliwn yn niwydiant ffilm Cymru. Wrth lansio Adroddiad Blynyddol 2008/09, dywedodd Peter Edwards, Cadeirydd Asiantaeth Ffilm Cymru fod dyfarniadau ariannol gwerth tua £940,050 wedi galluogi 20 o ffilmiau nodwedd i gael eu datblygu ac wyth ffilm nodwedd I gael eu cynhyrchu dros gyfnod o ddeuddeg mis. Roedd y cyfan yn cynnwys talentau o Gymru. Dyfarnwyd £162,996 ychwanegol i saith lleoliad sinema, 17 o gymdeithasau ffilm, deg gŵyl ffilm a phedwar digwyddiad ffilm arbennig er mwyn gwella arddangosfeydd ffilmiau arbenigol ledled Cymru gyda ffigurau cynulleidfaoedd yn cynyddu 35% dros y tair blynedd diwethaf. Hefyd, rhoddwyd £52,168 i 13 o brosiectau addysg ffilm sydd o fudd i tua 2300 o bobl ifanc ledled Cymru.

"Bellach yn ei drydedd flwyddyn, mae Asiantaeth Ffilm Cymru...yn parhau i ganolbwyntio ar gyfuno diwylliant a masnach, gan arloesi ym maes ffilm ddigidol, ac yn hollbwysig, llwyddo," eglura Mr Edwards.
"Gan weithio gyda rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r diwydiant, mae'r tîm wedi canolbwyntio ar ddefnyddio manteision economi ddigidol i'r eithaf, gan groesawu dyfodol digidol yng Nghymru a chynnwys ein talentau a'n pobl ifanc yn y dyfodol yn y diwydiant ffilm yng Nghymru."
"Eleni, rydym wedi gweld 15 o ffilmiau a ariannwyd gan yr Asiantaeth Ffilm yn dechrau neu'n cwblhau'r gwaith cynhyrchu gyda gwariant amcangyfrifedig yng Nghymru o £4 miliwn a chyfanswm cyllid partneriaeth o fwy na £11.1 miliwn - mae hynny'n gyflawniad eithriadol o ystyried ein cyllid cynhyrchu cyfyngedig o £2.1 miliwn yn unig ers i ni ddechrau yn 2006."
"Mae arbedion maint a buddiannau strategol ychwanegol i'w cael mewn amgylchedd lle anogir aml-fusnes gyda chyd-arianwyr a lle gall yr arianwyr hynny gydweithio i gyflawni eu nodau'n well."

Gŵyl Ffilm a Cherddoriaeth Ryngwladol Soundtrack Caerdydd, yn ei hail flwyddyn.

Bellach yn ei hail flwyddyn, cynhaliwyd Gŵyl Ffilm a Cherddoriaeth Ryngwladol Soundtrack mewn sawl lleoliad o amgylch Caerdydd a'r Bae rhwng dydd Mercher 18fed a dydd Sul 22ain Tachwedd 2009.

Mae'r ŵyl yn dathlu'r berthynas arbennig rhwng cerddoriaeth a'r ddelwedd symudol. John Cale, yr artist cerddorol, a'r cyfansoddwr, oedd seren gŵyl eleni ynghyd â'r rocwyr seic, y Super Furry Animals.

Lansiwyd Soundtrack yn 2008 gyda gwesteion proffil uchel fel cyfarwyddwr Slumdog Millionaire, Danny Boyle, y cyfansoddwr o Libanus a enillodd Oscar, Gabriel Yared, yr actor uchel ei barch, Jonathan Pryce a'r cyfansoddwr, David Holmes.

Am ragor o wybodaeth cliciwch ar: http://www.soundtrackfilmfestival.com/about-soundtrack-festival

Asiantaeth Ffilm Cymru yn penodi Aelodau newydd i'r Bwrdd

Cyhoeddodd Peter Edwards, Cadeirydd Asiantaeth Ffilm Cymru (ffotograff ar y dde), Fwrdd newydd o Gyfarwyddwyr ar gyfer y sefydliad hwn ledled Cymru

Ymunodd wyth aelod newydd o'r Bwrdd ag Asiantaeth Ffilm Cymru ym mis Tachwedd eleni, yn lle nifer o Gyfarwyddwyr sydd wedi cwblhau eu tymor, ac i ehangu'r Bwrdd presennol o 10 i 14. Mae'r penodiadau proffil uchel yn cynnwys y cyn Ddirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Delyth Evans, ynghyd â'r Cynhyrchydd Rebekah Gilbertson (y mae ei gwaith yn cynnwys Edge of Love gyda Keira Knightley, Mathew Rhys a Sienna Miller, a Patagonia, ffilm nodwedd ddiweddaraf Marc Evans,) a Heather Stewart, Cyfarwyddwr Rhaglenni Diwylliannol Sefydliad Ffilm Prydain.

Atgyfnerthir y Bwrdd hefyd gan bresenoldeb Gethin Scourfield sy'n Gynhyrchydd o Gymru ac yn gyn-fyfyriwr EAVE a chyn arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, Cynghorydd Sir ac aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru, Rhiannon Wyn Hughes (sy'n ymuno ym mis Mawrth 2010). Mae Hughes wedi bod yn llywio Sinema Ddigidol annibynnol ac arloesol, Y Scala Prestatyn.

Mae'r Bargyfreithiwr a goruchwyliwr y Gronfa Cyfalaf Menter, Thomas Dillon hefyd yn ymuno â'r Bwrdd ynghyd â'r cynhyrchydd Jane Dauncey sydd â phrofiad helaeth o waith ym maes rhwydwaith teledu a chymwysterau corfforaethol cryf a'r asiant Rob

Krait a sydd ag amrywiaeth eang o gysylltiadau o ran talentau, cwmnïau cynhyrchu ac arianwyr.
Mwy: Film Agency for Wales new Board appointments

Llun: Aelodau Bwrdd Newydd Asiantaeth Ffilm Cymru.

Asiantaeth Ffilm Cymru

Mwy cliciwch ar: film agency wales dates for your diary

Dyddiadau i'ch Dyddiadur

Zoom – Gŵyl Ffilm Pobl Ifanc Ryngwladol Cymru

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau: 15fed Ionawr 2010

Mae Zoom - Gŵyl Ffilm Pobl Ifanc Ryngwladol Cymru bellach yn derbyn ceisiadau am Wobrau Gwneuthurwyr Ffilm Ifanc Zoom 2010. Rhaid i ffilmiau gael eu cynhyrchu gan blant/pobl ifanc sy'n 25 oed neu iau, gallant gwmpasu genres Ffuglen, Animeiddio, Fideo Cerddoriaeth neu Raglen Ddogfen, ni allant bara am fwy na 10 munud a rhaid iddi fod wedi'i gwneud yng Nghymru ar ôl mis Ionawr 2008. Am fanylion llawn a ffurflenni cais, cysylltwch ag info@zoomcymru.com

Cwrs Arddangosfa Sinema Diwylliannol Dwys ICO

18fed – 29ain Ionawr 2010 (heb gynnwys penwythnosau)

Mae'r ICO yn rhedeg cwrs Arddangosfa Sinema Diwylliannol dwys **18fed - 29ain Ionawr 2010** (heb gynnwys penwythnosau) yn BFI Southbank, Llundain. Mae'r cwrs yn gyfle unigryw i bobl sy'n gweithio yn y sector arddangosfa sinema ddiwylliannol sydd am ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o raglennu ffilm.

Bydd y cwrs yn cael ei addysgu gan amrywiaeth eang o arbenigwyr sy'n flaengar yn y diwydiant ffilm ac mae'n cwmpasu:

Am ragor o wybodaeth, gweler: www.independentcinemaoffice.org.uk/training-2010-culturalcinemaexhibition

neu cysylltwch â Tilly Walnes ar info@independentcinemaoffice.org.uk

Ymhlith y ffilmiau nodwedd sy'n cael buddsoddiad cynhyrchu gan FAW mae:

- ffilmiau dogfen theatraidd *Little Matador* (sy'n cael ei chynhyrchu ar hyn o bryd), IFDA, Hotdocs ac enillydd Ffilm Nodwedd y Byd a Silverdocs AFI,
- *A Boy Called Dad*, a ddewiswyd wedi hynny ar gyfer Gŵyl Ffilm Caeredin, a
- *Barafundle Bay* un o '20 o sgriptiau ffilmiau gorau nas cynhyrchwyd' y diwydiant yn ôl Variety.

Wrth wraidd pob un o'r prosiectau uchod mae awdur, cyfarwyddwyr a neu gynhyrchydd/cynhyrchwyr o Gymro.

Rhagor o brosiectau a ariennir gan FAW...

- Mae ***Mugabe and the White African,*** a ariannwyd gan Asiantaeth Ffilm Cymru, wedi'i rhoi ar y rhestr fer ar gyfer Oscar. Mae'r ffilm ddogfen bwerus hon o hyd ffilm nodwedd am gyfundrefn Mugabe ymhlith y 15 o Ffilmiau Nodwedd Dogfen sydd ar y rhestr fer am Wobr Academy, ac sy'n gobeithio cyrraedd y rhestr o'r pump terfynol yn barod ar gyfer noson Oscar rhif 82 yn Hollywood yn y Flwyddyn Newydd. Cafodd ei chyfarwyddo gan Andrew Thompson a Lucy Bailey ac mae'n gofnod o ymateb ffermwr i'r rhaglen Diwygio Tir dreisgar yn Zimbabwe.

- Mae Paddy Considine, Sally Hawkins a Noah Taylor i gyd yn actio yn ***Submarine***, a ariannwyd gan Asiantaeth Ffilm Cymru. Wedi'i haddasu o nofel John Dunthorne, mae *Submarine* yn dilyn hanes Oliver Tate a chwaraeir gan yr actor newydd Craig Roberts, sy'n ceisio canlyn Joradana Bevan (Yasmin Page) ac adrodd ei stori ei hun. Wedi'i chyfarwyddo gan Richard Ayoade o *The IT Crowd*, mae'r ffilm bellach yn cael ei ffilmio yng Nghymru.

- **Mae Asiantaeth Ffilm Cymru wedi sicrhau arian gan HSBC** i barhau gyda'r prosiect peilot Clwb Ffilmiau yng Nghymru. Mae HSBC wedi dyfarnu £9,900 er mwyn cynnal 11 o glybiau mewn pum awdurdod lleol yn ogystal â sefydlu clwb newydd ym Mhrestatyn, lle bydd staff cangen leol HSBC yn cynorthwyo yn y broses o gynnal y clwb. Michael Sheen yw'r llysgennad ar gyfer y Clwb Ffilmiau yng Nghymru.

WELSH MUSIC FOUNDATION
www.welshmusicfoundation.com

WMF yng Ngŵyl Ffilmiau Sound-track.

Llun: Cynrychiolwyr yn 'All The Right Mov(i)es : Getting your music in film and TV'

Ar ddydd Gwener 20fed Tachwedd 2009 cynhaliodd y Sefydliad Cerddoriaeth Cymreig ddigwyddiad fel rhan o Ŵyl Ffilm Ryngwladol Soundtrack o'r enw 'All The Right Mov(i)es : Getting your music in film and TV', seminar am ddim yn The Gate, Y Rhath, Caerdydd. Gyda chydamseriad cerddoriaeth yn gyfle cynyddol i grewyr cerddoriaeth a deiliaid hawliau, daeth tua 60 o gyfansoddwyr, artistiaid, cynrychiolwyr labelau a chyhoeddwyr ledled Cymru ynghyd i glywed awgrymiadau gan banel o westeion arbennig gyda'r nod o greu cerddoriaeth ar gyfer ffynonellau cyfryngol fel ffilm a theledu. Roedd y Panel yn cynnwys arbenigwyr o gyrff masnach cenedlaethol sydd hefyd yn gyfansoddwyr sefydledig, ynghyd ag Amelia Hartley sy'n Oruchwyliwr Cerddoriaeth o gwmni cynhyrchu byd-eang Endemol, yn siarad am eu profiadau ac yn rhannu eu gwybodaeth.

Yn y llun uchod (o'r chwith i'r dde) mae Amelia Hartley, Goruchwyliwr Cerddoriaeth o Endemol UK (Gŵyl iTunes, cyfres 1-10 o Big Brother, The Brit Awards, The Orange British Academy Film Awards). Stuart Worthington, Pennaeth Hyfforddiant MMF Training a Chadeirydd y sesiwn. Mark Fishlock - Cadeirydd Pwyllgor Gweithredol y Cyfryngau yn BASCA (Academi Prydain o Gyfansoddwyr Caneuon, Cyfansoddwyr ac Awduron). Blair Mowat, cyfansoddwr llwyddiannus o PCAM (Y Gymdeithas ar gyfer Cynhyrchwyr a Chyfansoddwyr Cerddoriaeth Gymwysedig).

Cyfarfod Rhwydweithio'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig - 2il Rhagfyr.

Ar 2il Rhagfyr yn Galeri, Caernarfon, cynhaliwyd cyfarfod rhwydweithio WMF a oedd yn cyd-fynd â lansio adroddiad Prifysgol Bangor: Adeiladu Strategaethau Cerddoriaeth newydd i'r Diwydiant Cerddoriaeth yng Nghymru.
Cyflwynodd Pwyll ap Sion a Deian ap Rhisiart, a oedd yn ganolog yn y gwaith ymchwil, gasgliadau'r astudiaeth ac yn dilyn hynny cafwyd ymateb panel o arbenigwyr i'r canfyddiadau. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd hyfywedd cymdeithas casglu annibynnol i Gymru ei hun neu gerddoriaeth Gymraeg yn benodol, taliadau radio a theledu, effeithiau a phosibiliadau arian y wladwriaeth, gwerthiannau a'r sîn fyw.

Y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig: Dyddiadau a dyddiadau cau

'Getting the Gig' : WMF ac Undeb y Cerddorion yn cyflwyno...

10 Chwefror 2010, 2pm - 3.30pm Yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Canllaw DIY llawn ar gysylltu â lleoliadau, hyrwyddwyr a gwyliau ar gyfer chwarae'n fyw a fydd yn clustnodi ffactorau allweddol i artistiaid eu hystyried. Bydd y sesiwn yn ystyried ble a phryd i chwarae, sut i nodi a chyrraedd cynulleidfa, ac yn bwysicaf oll, sut i gadw cefnogwyr er mwyn sicrhau sioeau llwyddiannus yn y dyfodol. Bydd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd allweddol y diwydiant yn cynnig cyngor ymarferol ac awgrymiadau ar arfer gorau. Ni chodir tâl am fynychu'r digwyddiad. Archebwch eich lle: hello@welshmusicfoundation.com

Cyswllt CBW:

Busnes Creadigol Cymru, 33-35 Stryd Gorllewin Bute, Bae Caerdydd, CF10 5LH
Ffôn: 02920 43 6110
Ffacs: 02920 49 5598
E-bost: cbw@wales-uk.com
Gwefannau: ***www.ibwales.com***
www.business-support-wales.gov.uk

(h) Busnes Creadigol Cymru 2009